



278 WORKS
PARC SIOPA PENRHOS
CAERGYBI
YNYS MÔN

Y TÎM A WNAETH Y GWAITH

Hollingsworth Bros
UK Ltd

CLEIENT

PETTIFER
WM MORRISON

GWERTH

£875,000

YMGYNGHORWYR

COX TURNER MORSE
CONSULTING GROUP

MANYLION

Prif nod y prosiect yma oedd darparu ffordd fynediad newydd a gwell at yr Archfarchnad Morrisons newydd oedd yn mynd i gael ei hadeiladu, ynghyd â'r siopau o'i hamgylch. Byddai hyn yn gofyn lledu'r ffordd bresennol (gan gadw'r mynediad at yr holl fusnesau oddi amgylch), ffurfio mynedfa newydd i gerbydau cludo, croesfan newydd i gerddwyr ac adeiladu cylchfan newydd gyda'r arwyddion a'r goleuadau cysylltiedig. Gwnaethpwyd y gwaith i gyd yn unol â gofynion yr asiantaeth Briffyrd ac o dan oruchwyliaeth adran Briffyrd Cyngor Sir Fôn. Roedd Hollingsworth Bros yn gyfrifol am ymdrin â'r holl drwyddedau perthnasol/agoriadau ffyrdd ac ati, ac hefyd am gysylltu gyda darparwyr y gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â gwyriadau traffig.

Manylion/Gofynion Adeiladu

Adeiladwyd wal gynnal resog gerllaw'r gylchfan newydd gan ddefnyddio adrannau pren sy'n cydgloi ac yna rhoddwyd planhigion ynddi i gyfateb â'r tir o'i hamgylch. Gwnaethpwyd yr elfen hon o'r gwaith ar ran Hollingsworth Bros gan y contractwr arbenigol RPC.

Cafodd y gylchfan newydd ei hadeiladu gan ddefnyddio cyrbau ar hanner goleddf i ffurfio prif radiws y gylchfan, yna llanwyd canol y gylchfan i ffurfio goleddf o gefn y cwrbyn, a rhoddwyd cerrig palmant wedi eu cynhyrchu'n arbennig ar y goleddf yma gyda blociau palmant du a gwyn adlewyrchol i greu effaith "Chevron". Gorffennwyd canol y gylchfan gyda chynnyrch llechi lleol.





Hollingsworth Bros (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Adeiladwyd y Brif Ffordd Gerbydau gan ddefnyddio dulliau gosod arwyneb traddodiadol i gyfateb â gofynion yr asiantaeth Briffyrdd ac IOACC. Gwnaethpwyd yr elfen hon o'r gwaith ar ran Hollingsworth Bros gan y cwmni gosod arwynebau Hogan Bros.

Rhodddwyd arwyneb Gwrth-Lithro Arbenigol ar bob ffordd sy'n teithio tuag at y gylchfan ac hefyd wrth ddynesu at y groesfan i gerddwyr oedd newydd gael ei gosod. Gwnaethpwyd y gwaith yma gan gwmni marciau ffordd L&R.

Gwnaethpwyd yr holl waith gwrthgloddiau, draenio, dwythellau, cyrbau a ffurfiannau gan ein tîm medrus ni'n hunain. Mae pob un ohonynt wedi eu hyfforddi ym medrau'r Ddeddf Ffyrdd a Gwaith Stryd Newydd, gan gynnwys y lefel oruchwylio.

Gosodwyd y Groesfan i Gerddwyr a'i chomisiynu ar ran Hollingsworth Bros gan SIEMENS UK. Gwnaethpwyd yr holl waith adeiladu ar gyfer y groesfan gan Hollingsworth Bros, ac roedd hyn yn cynnwys rhywfaint o waith tu allan i oriau er mwyn osgoi amharu ar fusnesau lleol wrth gloddio ar draws y briffordd.

Gosodwyd goleuadau ac arwyddion stryd newydd gan BETHELL sy'n contractwyr cymeradwy gan IOACC, o dan arweiniad rheolwyr H Bros.

RHAGLEN.

Cwblhawyd y rhaglen wreiddiol o 14 wythnos un wythnos yn gynharach na'r amser gofynnol gydag IOACC yn gyfrifol am y ffyrdd ac yn eu rhoi i'r gweithwyr cynnal a chadw 2 wythnos yn ddiweddarach gyda'r manion lleiaf o waith cwblhau.

BODDHAD Y CLEIENT

Llwyddwyd i wneud y gwaith i gyd heb unrhyw gŵyn o gwbl gan drigolion/busnesau lleol ac roedd y ffordd newydd yn barod i'w defnyddio ar y diwrnod yr agorodd y siop newydd er boddhad i Wm Morrisons. Hefyd gwnaeth IOACC arolwg diogelwch cam 3 o'r gwaith pan gafodd ei gwblhau heb unrhyw ddiffygion o gwbl, er boddhad ein cleient Pettifer.